**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I GASGLIADAU O ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:**

**CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2019-20**

---

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod manylion ar gael i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl Cyllideb y DU sy'n rhoi manylion am effaith newidiadau ar lefel y DU ar Gyllideb Cymru, yn benodol mewn perthynas â Chyllideb 2019-20.**

**Ymateb:** Derbyn

Ar ddiwrnod Cyllideb y DU ar 11 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ddatganiad ysgrifenedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y goblygiadau uniongyrchol i Gymru. Ymdriniodd y datganiad ag effaith cyhoeddiadau gwariant drwy fformiwla Barnett, a hefyd yr effaith y mae'r rhagolygon macro-economaidd newydd yn ei chael ar refeniw'r trethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Nid oedd unrhyw effeithiau yn ymwneud â Chyllideb 2019-20 ac, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y ddadl ar y gyllideb derfynol, bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn fuan mewn perthynas â 2020-21.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y materion a nodwyd gan y Gweinidog mewn perthynas â hysbysiad hwyr gan Lywodraeth y DU o ddyraniadau trafodiadau ariannol yn dilyn Amcangyfrifon Atodol y DU ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio cynnydd yn y cyfalaf trafodiadau ariannol a gaiff ei gario ymlaen bob blwyddyn i adlewyrchu natur fwy cymhleth prosiectau sy'n defnyddio'r cyllid hwn a'r ansicrwydd y mae newidiadau yn hwyr yn y flwyddyn gan Lywodraeth y DU yn ei ychwanegu at y gwaith o gynllunio a gweinyddu'r dyraniadau cyllid hyn.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae’r Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd wedi dweud droeon, gan gynnwys wrth y pwyllgor hwn, fod y cyfyngiadau a osodir ar y defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar werth enwol ariannol llawn y cyllid hwn a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ohono fel rhan o’r Cyllid cyfalaf.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i leihau cyllideb cyfalaf trafodiadau ariannol Llywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol wedi ychwanegu elfen arall o ansicrwydd at sefyllfa sydd eisoes yn gymhleth. Ysgrifennodd y Gweinidog at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd ar 4 Chwefror, gan nodi ei phryder dwys ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â'r newidiadau hyn ac y cawsant eu cyfleu, ac ynghylch yr effeithiau sylweddol ar Gyllideb Cymru mor hwyr yn y flwyddyn ariannol. Ailddatganwyd y pwynt hwn yn llythyr rhag-gyllidebol y Gweinidog at Ganghellor y Trysorlys dyddiedig 6 Mawrth, gan nodi'n glir yr heriau a grëir drwy wneud gostyngiadau hwyr i gyllidebau Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol hon, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y grym gwario cyfalaf y flwyddyn nesaf.

Wrth i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant arfaethedig Llywodraeth y DU yr haf hwn agosáu, bydd y pwyso am fwy o hyblygrwydd o ran cyllido yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynyddu capasiti cronfa wrth gefn Cymru a'r terfynau benthyca cyfanredol a blynyddol er mwyn sicrhau bod ysgogiadau angenrheidiol ar gael i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau yn y ffordd sy'n gwneud y synnwyr mwyaf i Gymru. Mae mater ehangach y ffordd orau o sicrhau bod cyllid Trafodiadau Ariannol yn cael ei reoli er mwyn galluogi Gweinyddiaethau Datganoledig i ddefnyddio'r cyllid hwn yn effeithiol yn un a fydd yn parhau i gael ei godi gyda Llywodraeth y DU. Mae’r Gweinidog wedi nodi bod yn rhaid i gynnydd gael ei wneud ar y mater hwn fel mater o frys.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariadau ar drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad am HS2 ac a fydd hyn yn arwain at gyllid canlyniadol i Gymru.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch HS2 a'r ffordd y bydd y cyllid yn effeithio ar ei chyllideb drwy fformiwla Barnett dros yr adolygiad nesaf o wariant, yn enwedig o gofio'r effaith economaidd negyddol y disgwylir i HS2 ei chael yng Nghymru. Bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am HS2 yn dilyn yr adolygiad o wariant.

Croesewir ymrwymiad Llywodraeth y DU i godi perfformiad economaidd i'r un lefel ledled y DU. Fodd bynnag, oni fydd Cymru yn cael budd o'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer rhaglenni rheilffyrdd yn Lloegr, ni chaiff y rhan o'r DU sy'n wynebu'r heriau economaidd mwyaf gyfle i fynd i'r afael â nhw.

Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol o hyn ymlaen am elfen sylweddol o'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn sgil trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae ganddi gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu Metro De Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd yn bwysig cael cyfran deg o gyllid i wireddu hyn, o ystyried effeithiau economaidd negyddol disgwyliedig HS2 ar Gymru.

Bydd y gweinyddiaethau datganoledig eraill yn cael budd o'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer rhaglenni buddsoddi mewn rheilffyrdd yn Lloegr drwy fformiwla Barnett. Heb driniaeth debyg, ni chaiff Cymru, sef y rhan o'r DU sy'n wynebu'r heriau economaidd mwyaf, gyfle i fynd i'r afael â nhw.

Yng ngoleuni'r dadleuon hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i alw am i Gymru gael ei chyfran deg o'r gwariant ychwanegol ar seilwaith yn gyffredinol a HS2 yn

benodol a addawyd gan Lywodraeth y DU.

Gan edrych i'r dyfodol, datganoli pwerau dros seilwaith rheilffyrdd yn llawn a setliad cyllido teg, fel y'u nodwyd yn y dystiolaeth i Adolygiad Williams, yw'r unig ateb hirdymor rhesymegol i wireddu’r uchelgeisiau ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig a rennir.

**Argymhelliad 4**
**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ychwanegol yn yr adroddiad alldro i nodi’r sefyllfa fanwl ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys dyraniadau sylweddol a wneir yn dilyn y Gyllideb Atodol hon.**

Ymateb: Derbyn

Caiff yr alldro archwiliedig ar gyfer 2019-20 ei gofnodi yn erbyn llinellau'r gyllideb a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd yn Ail Gyllideb Atodol 2019-20. Bydd manylion am unrhyw ddyraniad, tanwariant neu orwariant arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

**Argymhelliad 5**
**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn trafod fforddiadwyedd hirdymor y polisi benthyciadau i fyfyrwyr gyda Llywodraeth y DU ac yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r polisi Benthyciadau i Fyfyrwyr yn un o'r meysydd niferus a drafodir gyda Llywodraeth y DU, ynghyd â nifer o amcanion polisi hirdymor eraill. Os bydd newidiadau polisi gan naill ai Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU sydd â goblygiadau ariannol, bydd y Pwyllgor yn cael gwybod ar yr adeg briodol.